

Safonau Iaith Gymraeg

Arwyddion Allanol a Mewnol – Canllawiau i Gontractwyr

Mae'r Cyngor yn credu fod parchu a diwallu anghenion a dewisiadau iaith ei gwsmeriaid yn ganolog i ofal cwsmer da ac effeithiol. Rydym yn darparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau ac mae sicrhau y gall unigolion gael mynediad at wasanaethau yn eu hiaith gyntaf yn arbennig o bwysig. Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod fod gennym gyfrifoldeb a dyletswydd fel arweinydd cymunedol i hyrwyddo, cefnogi a diogelu'r Gymraeg er budd cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Rydym wedi gwneud ymrwymiad i gynyddu gwelededd y Gymraeg a dod yn sir ddwyieithog.

Mae gennym rwymedigaethau cyfreithiol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a roddodd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a chyflwyno dyletswyddau newydd i gyrff cyhoeddus gan nodi'n glir beth sydd angen iddynt ei ddarparu yn Gymraeg. Mae'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, sy'n nodi'n glir beth sydd angen i ni ei wneud yn Gymraeg, wedi'u hamlinellu fel Safonau'r Gymraeg mewn Hysbysiad Cydymffurfio.

Mae'n rhaid i'r holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau a wnaed gan gontractwyr ar ran y Cyngor gydymffurfio â Safonau perthnasol y Gymraeg. Mewn achosion o is-gontractio, mae'r contractwr arweiniol yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl is-gontractwyr yn cydymffurfio â gofynion safonau perthnasol y Gymraeg. Bydd contractwyr dim ond angen cydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol i ddarparu nwyddau, gwaith neu wasanaethau ar gyfer y contract penodol hwnnw.

Os byddwch, fel rhan o'r contract, yn arddangos arwyddion i'w darllen gan y cyhoedd neu weithwyr y Cyngor, bydd angen i chi gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer arwyddion. Mae dylunio ac arddangos arwyddion dwyieithog yn ddyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor a'n contractwyr gydymffurfio â nhw.

Mae safon 36, 61, 62, 63 141 a 142 o dan Safonau'r Gymraeg yn cyfeirio'n benodol at arwyddion a'r drefn y mae'n rhaid arddangos yr ieithoedd. Mae disgrifiad llawn o'r safonau hyn wedi'i ddarparu'n llawn yn yr atodiad.

Beth yw gofynion arwyddion dwyieithog?

- Mae'n rhaid i'r Gymraeg ddod yn gyntaf h.y. ei fod yn dod o flaen y Saesneg neu i'r chwith o'r Saesneg.
- Mae'n rhaid i'r testun Cymraeg fod yn fanwl gywir. Mae'n rhaid cofio acenion Cymraeg, er enghraifft **Tŷ** Dewi Sant ac nid **Ty** Dewi Sant.
- Mae'n rhaid i'r Gymraeg a'r Saesneg fod â'r un gwelededd ac amlygrwydd.
- Os defnyddir logos, mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn ddwyieithog.
- Gall arwyddion Cymraeg a Saesneg fod ar wahân ond ein cyngor yw eich bod yn cadw'r arwydd yn ddwyieithog h.y. bod y ddwy iaith ar yr un arwydd. Mae hyn yn osgoi symud un arwydd yn ddiotal neu ei ddifrodi, gan arwain at y Cyngor yn torri rheolau'r safonau os bydd yr arwydd Cymraeg yn cael ei symud.

Gwasanaeth Cyfieithu

Mae gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg ar gael i fusnesau trwy Lywodraeth Cymru. Gall [Helo Blod](#) ar wefan Busnes Cymru ddarparu:

- cyfieithiadau yn rhad ac am ddim ar gyfer hyd at 500 gair bob mis
- gwirio testun ar gyfer hyd at 1,000 o eiriau bob blwyddyn
- cyngor, arweiniad a chymorth i helpu busnesau i ddefnyddio ychydig (neu lawer) o Gymraeg
- Nwyddau Iaith Gwaith fel cortynnau gwddf a bathodynau sy'n gadael i gwsmeriaid wybod pa staff sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg

Ffôn: 03000 25 88 88 neu ewch i'w gwefan [Helo Blod](#)

Pa fath o arwyddion sydd angen bod yn ddwyieithog?

Bydd hyn yn dibynnu ar y contract gyda'r Cyngor, y manylion yn y contract a'r math o contract e.e. p'un ai ar gyfer nwyddau, gwaith neu wasanaethau. Gall arwyddion gynnwys:

- Arwyddion allanol
- Arwyddion mewnol
- Arwyddion cyfeiriadol
- Enwau lleoedd (lle mae enw Cymraeg ar gael). Gweler y rhestr o enwau lleoedd safonol Cymru gan [Gomisiynydd y Gymraeg](#) i wirio'r enw Cymraeg.
- Arwyddion lechyd a Diogelwch
- Arwyddion drysau
- Arwyddion ystafelloedd cyfarfod
- Cyfarwyddiadau
- Hysbysiadau - er enghraifft, i roi gwybod i weithwyr bod gweithle yn cael ei lanhau neu i beidio â defnyddio darn o offer.
- Arwyddion mewn digwyddiadau cyhoeddus sydd wedi'u hariannu neu wedi'u hariannu'n rhannol (o leiaf 50%) gan y Cyngor.
- Arwyddion dros dro ac eithrio mewn "argyfwng" fel y diffinnir yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Cyngor a chefnogaeth bellach

[Gwneud cais am Contractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg](#) - Comisiynydd y Gymraeg

[Canllawiau Dylunio Dwyieithog](#) - Comisiynydd y Gymraeg

Atodiad 1

Safonau perthnasol y Gymraeg

Ar gyfer “chi” darllenwch rhai Cyngor Sir y Fflint

Safon 36

Os ydych yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, mae'n rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â'r gwasanaethau a gynhigiwyd i unigolion sy'n mynychu'r digwyddiad, mewn perthynas â'r arwyddion sy'n cael eu harddangos yn y digwyddiad ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wnaed yn y digwyddiad).

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (yn cynnwys arwyddion dros dro), mae'n rhaid i unrhyw destun sydd ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (p'un ai boed hynny ar yr un arwydd yr ydych yn arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, ni ddylech drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Safon 62

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (yn cynnwys arwyddion dros dro) sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae'n rhaid gosod y testun Cymraeg fel ei fod yn debygol mai hwnnw fydd yn cael ei ddarllen yn gyntaf.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â safon 62 ym mhob amgylchiad ac eithrio:

- arwyddion dros dro mewn argyfwng

(Mae gan “argyfwng” yr un ystyr a roddir iddo yn adran 1 o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004)

Safon 63

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn fanwl gywir yn nhermau ystyr a mynegiant

Safon 141

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (yn cynnwys arwyddion dros dro), mae'n rhaid i unrhyw destun ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (p'un ai bod hynny ar yr un arwydd â'r testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, ni ddylech drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Safon 142

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (yn cynnwys arwyddion dros dro) sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae'n rhaid i'r testun Cymraeg gael ei osod fel ei fod yn debygol mai hwnnw fydd yn cael ei ddarllen yn gyntaf.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â safon 142 ym mhob amgylchiad ac eithrio:

- arwyddion dros dro mewn argyfwng

(Mae gan "argyfwng" yr un ystyr a roddir iddo yn adran 1 o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004)

Safon 143

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod y testun Cymraeg sy'n cael ei arddangos ar arwyddion yn eich gweithle yn fanwl gywir yn nhermau ystyr a mynegiant.